# Adroddiad ar

## Kiddies World Playgroup
## Tower View
## Ffordd Llangollen
## Acrefair
## Wrecsam
## LL14 3SH

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2019

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## ac

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Am Ganolfan Blant Kiddies World

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Kiddies World Playgroup |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Michael Morrison |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Dd/G |
| Person â gofal | Emma Davies-Matthews |
| Nifer y lleoedd | 26 |
| Ystod oedran y plant | O dan 12 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 13 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 27 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9:00am a 3:00pm |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nac ydy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 28/06/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 24/02/2016 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 09/04/2019 |

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol *'Mwy na Geiriau'* Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Rydym wedi cynghori'r person cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â sicrhau bod tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfredol ar gyfer yr holl bersonau yn y lleoliad (Rheoliad 6 (3) (b) (i) (aa)) a hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau sylweddol sy'n effeithio ar lesiant y plant (Rheoliad 31) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid oes hysbysiad diffyg cydymffurfio wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r lleoliad.   Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

## Argymhellion

A1  Gwella datblygiad mathemategol y plant

A2  Cynnig cyfleoedd gwerth chweil i'r plant ddysgu am ailgylchu

A3  Cynllunio'n effeithiol i ddatblygu sgiliau datrys problemau a meddwl y plant

A4  Rhaid i'r person cofrestredig fynd i'r afael â'r holl achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant: Da**

Mae bron bob un o'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Er enghraifft, mae'r plant yn cyfarch eu ffrindiau a'u hymarferwyr yn Gymraeg ac yn llawn brwdfrydedd wrth chwilio am eu lluniau i'w gosod ar y wal i gofrestru eu presenoldeb. Yn ystod amser cylch, mae un plentyn yn dangos ei esgidiau newydd ac mae plentyn arall yn siarad am y bwyd sydd ganddo ar gyfer cinio. Mae bron bob un o'r plant yn gwneud dewisiadau yn ystod amser byrbryd, ac yn dewis eu ffrwythau a llaeth neu ddŵr i'w yfed. Mae'r plant yn datblygu eu hyder ac yn gwneud ceisiadau'n dda gan eu bod yn gwybod bod yr ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn ymateb iddynt yn briodol, er enghraifft pan fyddant am gael mwy o fyrbryd neu fynd i'r toiled.

Mae bron pob plentyn yn hapus ac wedi setlo. Maent yn ymdopi'n dda wrth ffarwelio â'u rhieni ac yn teimlo'n gyfforddus yn mynd at yr ymarferwyr. Er enghraifft, mae un plentyn yn gyfforddus wrth gael ei gewyn wedi'i newid ac yn dewis ei hoff hwiangerdd i'r ymarferydd ei chanu. Mae ganddynt gydberthynas briodol â'r ymarferwyr. Er enghraifft, mae un plentyn eistedd ar lin ymarferydd i gael maldod yn ystod gweithgareddau yn yr ysgol goedwig ac yn dal ei llaw i'w thywys at y bwa helyg i chwarae cuddio. Mae hyn yn gwneud i'r plentyn deimlo'n hapus ac yn ddiogel.

Mae awyrgylch cefnogol a digynnwrf yn galluogi'r plant i reoli eu rhyngweithio'n gadarnhaol. Er enghraifft, mae dau ffrind yn dewis y tŷ doliau ac yn rhannu ffigurau'r byd bach yn briodol i greu eu stori eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio cwrteisi wrth gymryd eu tro i fynd ar y llithren a gofyn am deganau ac adnoddau.

Mae bron bob un o'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig ac yn mwynhau gweithgareddau sy'n seiliedig ar archwilio a darganfod. Er enghraifft, mae'r plant yn chwilio am gwningod wedi'u torri allan o gerdyn o wahanol liwiau yn llawn brwdfrydedd ac yn dathlu cyflawniadau ei gilydd gan chwerthin a churo dwylo. Wrth eistedd o dan y goeden ddymuniadau, mae bron pob plentyn yn canolbwyntio ac yn gwrando yn astud ar stori am Ticw yr arth. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dysgu am faint a phwysau yn effeithiol. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n ofalus ac yn dod o hyd i foncyffion bach a boncyffion hirach i'w rhoi yn y ferfa ac yn helpu ei gilydd i'w gwthio pan fydd yn drwm.

Mae bron bob un o'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda. Nid oes angen llawer o gymorth arnynt i ddefnyddio'r toiledau a'r cyfleusterau golchi dwylo ac maent yn fedrus yn defnyddio jygiau bach i arllwys eu diodydd eu hunain. Wrth chwarae yn yr awyr agored, mae'r plant yn archwilio'n rhydd ac yn gwneud dewisiadau'n hyderus. Er enghraifft, mae un plentyn yn dewis paentio llun gan ddefnyddio'r îsl. Ar ôl gorffen, mae'n tynnu'r llun oddi yno ac yn ei osod ar y bwrdd sychu. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gallu clymu a datod eu ffedogau eu hunain yn llwyddiannus. Mae bron bob un o'r plant yn llawn cymhelliant i ddewis a llywio eu chwarae yn annibynnol ac yn effeithiol.

**Dysgu (mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau. Maent yn datblygu sgiliau siarad effeithiol ac mae sawl un ohonynt yn mynegi eu hunain â lefel briodol o eglurder. Er enghraifft, maent yn trafod y gweithgaredd maent yn cymryd rhan ynddo a'r hyn y maent yn ei fwynhau yn y lleoliad yn hyderus. Mae sawl un ohonynt yn datblygu sgiliau gwrando priodol. Maent yn gwrando ar gwestiynau'r ymarferwyr yn astud wrth adeiladu tyrau yn yr ardal adeiladu ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt. Mae llawer o'r plant yn deall bod ysgrifennu yn cyfleu ystyr. Maent yn gwneud marciau mewn gwahanol ffyrdd, megis wrth greu siapiau neu chwyrliadau ar y bwrdd du yn yr ardal awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu brwdfrydedd ar gyfer llyfrau. Maent yn mwynhau gwrando ar straeon ac ymateb iddynt ac yn mynegi eu hoffterau o ran y gwahanol fathau o lyfrau yr hoffent eu darllen yn dda wrth gydweithio â'r ymarferwyr i ddewis llyfr i fynd ag ef gartref.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu hiaith fathemategol a'u sgiliau cyfrif yn effeithiol. Er enghraifft, yn dilyn helfa wyau Pasg yn y lleoliad, maent yn ymuno i gyfrif nifer yr wyau a gasglwyd yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfrif i bump yn annibynnol a gall rai ohonynt gyfrif i ddeg ac uwch. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol a geirfa sylfaenol, er enghraifft maent yn defnyddio'r termau 'uchel' ac 'isel' wrth chwilio am degan tylluan yn yr ysgol goedwig. Fodd bynnag, nid ydynt yn datblygu eu dealltwriaeth o amrywiaeth lawn o gysyniadau mathemategol, gan gynnwys siapiau a mesur, yn ddigon da ar y cyfan.

Mae nifer o'r plant yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol fel rhan o'u dysgu annibynnol. Er enghraifft, mae plentyn yn defnyddio tegan 'walkie talkie' wrth chwarae'n ddychmygus yn yr ardal awyr agored. Mae rhai ohonynt yn defnyddio dyfeisiadau a ddelir â llaw yn annibynnol i gymryd lluniau o'r plant eraill sy'n rholio teiars yn yr ysgol goedwig.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau corfforol yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio brwsh paent bach yn ofalus i wneud siapiau defaid yn yr ewyn eillio. Maent yn dangos sgiliau echddygol manwl priodol wrth gropian o dan fwâu neu daflu peli mawr i'r cynhwyswyr yn yr ardal awyr agored.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn effeithiol i gyfarwyddiadau Cymraeg. Maent yn deall y termau Cymraeg ar gyfer lliwiau sylfaenol ac yn ymuno â chaneuon a hwiangerddi yn dda fel rhan o arferion bob dydd. Mae nifer fach o'r plant yn defnyddio termau Cymraeg syml yn annibynnol, er enghraifft i ddweud eu henwau. Mewn nifer fach o achosion, mae'r plant yn dangos sgiliau datrys problemau priodol. Er enghraifft, maent yn arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o dynnu model o'r Tywysog Maelor o floc o iâ.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau creadigol ac artistig yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio eu dychymyg i greu lluniau lliwgar o ddreigiau Cymru fel rhan o'u dathliadau Dydd Gŵyl Dewi.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn annog bwyta'n iach ac yn darparu gwybodaeth i rieni am y bwyd sy'n addas ar gyfer bocs bwyd y plant yn dda. Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid da ac yn sicrhau bod dysgu am frwsio dannedd yn hwyl. Maent yn annog chwarae yn yr awyr agored yn frwdfrydig ac yn datblygu sgiliau corfforol y plant yn gadarnhaol wrth iddynt fod yn egnïol yn yr awyr iach.

Mae'r ymarferwyr yn deall polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac yn eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Mae trefniadau'r sefydliad o ran diogelu'r plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder. Mae'r ymarferwyr wedi cwblhau a diweddaru eu hyfforddiant ar ddiogelu a chymorth cyntaf, sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal. Maent yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau'n gyson a chânt eu llofnodi gan yr ymarferwyr a'r rhiant. Mae'r ymarferwyr yn cynnal gwiriadau diogelwch tân ac ymarferion tân ar adegau priodol ac yn cofnodi'r canlyniad yn addas.

Mae'r staff yn darparu gofal mewn ffordd gyfeillgar a digynnwrf ac yn rheoli'r rhyngweithio'n deg ac yn gyson. Maent yn canmol y plant am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau'n dda. Er enghraifft, maent yn canmol y plant am gyfrif a gwrando'n dda ac am fod yn garedig i'w ffrindiau. Mae hyn yn gwneud i'r plant deimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau a meysydd dysgu diddorol. Maent yn defnyddio cymhorthion gweledol megis pypedau llaw yn effeithiol i wella'r profiad yn ystod amser stori. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i baentio a thynnu lluniau o bethau byw yn briodol. Mae hyn yn helpu i ddatblygu sgiliau arsylwi’r plant a'u gallu i fynegi eu hunain yn rhydd.

Mae'r ymarferwyr yn arddangos gwaith celf y plant mewn ffordd ddeniadol ac mae hyn creu amgylchedd croesawgar.  Maent yn hyrwyddo'r Gymraeg yn dda ac yn defnyddio ymadroddion syml drwy gydol y dydd er mwyn helpu'r plant i ymgyfarwyddo â'r iaith.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod gan y plant ddealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas ac maent yn hyrwyddo dysgu am eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant ddysgu am ailgylchu.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu'r gofal sydd ei angen arnynt yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae gweithdrefnau da ar waith i roi cymorth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r ymarferwyr yn olrhain ac yn cofnodi arsylwadau am eu datblygiad yn rheolaidd. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i greu cynlluniau gofal ac addysg unigol priodol a gaiff eu rhannu â'r rhieni ac asiantaethau eraill yn effeithiol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu diddorol i'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau datblygu eu dealltwriaeth o liwiau ac iaith leoliadol wrth chwilio am yr wyau lliw sydd wedi'u cuddio yn y lleoliad.  Mae'r ymarferwyr yn defnyddio eu

gwybodaeth am alluoedd a diddordebau'r plant yn dda i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol. Mae'r arsylwadau o ddiddordebau'r plant yn gryfder penodol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn darparu deunyddiau adeiladu ychwanegol i'r plant arbrofi â nhw yn yr ardal adeiladu ar ôl clywed plentyn yn trafod gwaith yr adeiladwyr y tu allan i'r lleoliad yn llawn brwdfrydedd.

Mae gan bob un o'r ymarferwyr gydberthnasau cadarnhaol â'r plant ac maent yn cynnal awyrgylch prysur ond pwrpasol. Maent yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ymddygiad annerbyniol yn deg gan ddefnyddio sensitifrwydd. Maent yn annog y plant i roi cynnig ar weithgareddau y maent yn eu gweld yn anodd a gwneud eu gorau.  Er enghraifft, pan fydd plentyn yn cael trafferth reidio sgwter, maent yn ymateb drwy ei ganmol a'i annog, sy'n ei gymell i ddyfalbarhau a llwyddo. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau datrys problemau a meddwl.

Mae'r ymarferwyr yn cynnal asesiadau defnyddiol o gynnydd y plant. Maen yn defnyddio arsylwadau anffurfiol yn dda i greu darlun o anghenion datblygu a chryfderau pob plentyn. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i lywio gweithgareddau yn y dyfodol. Mae'r lleoliad yn rhannu gwybodaeth am gynnydd y plant â'r rhieni'n effeithiol drwy raglen electronig sy'n galluogi'r rhieni i weld cynnydd eu plentyn a chyflwyno eu sylwadau.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i'r plant ddatblygu eu sgiliau llythrennedd. Yn benodol, mae'r ymarferwyr yn gwella sgiliau siarad a gwrando'r plant drwy gwestiynu medrus a gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol o ran iaith.  Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i wella sgiliau cyfrif y plant yn ogystal ag agweddau ar eu geirfa fathemategol drwy gydol y sesiwn.  Er enghraifft, maent yn gofyn i'r plant ddangos y brigau hiraf a'r byrraf wrth weithio yn yr ysgol goedwig. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio digon o weithgareddau â ffocws i ddatblygu'r amrywiaeth lawn o sgiliau mathemategol, megis dealltwriaeth y plant o siâp a mesur.

Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu sy'n meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda. Er enghraifft, maent yn datblygu ymdeimlad o ryfeddod drwy ofalu am bysgod y lleoliad a'u gwylio'n tyfu. Maent yn ymestyn ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau eraill drwy gynnal gweithgareddau sy'n seiliedig ar grefyddau a diwylliannau'r byd, megis astudio gŵyl Diwali a blasu bwyd Tsieineaidd yn ystod dathliadau'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn gadarnhaol, er enghraifft hwyluso gweithgareddau i ddysgu am chwedlau Cymru, megis Santes Dwynwen. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn helaeth ac yn effeithiol yn ystod gweithgareddau ac fel rhan o arferion.

## Yr Amgylchedd:  Da

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân.   Er enghraifft, mae ganddynt system dda ar gyfer rheoli mynediad i'r safle ac maent yn cadw cofnod o ymwelwyr.  Maent yn cwblhau asesiadau risg yn briodol ac yn cynnal gwiriadau iechyd a diogelwch yn ddyddiol.  Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn dilyn arferion hylendid effeithiol.  Er enghraifft, maent wedi sefydlu arferion glanhau cyson. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant ac yn eu goruchwylio'n dda er mwyn sicrhau diogelwch y plant.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r amgylchedd yn dda i ddiwallu anghenion y plant. Er enghraifft, rhoddir gofod unigol i'r plant i storio eu heitemau personol yn ogystal â sedd ddynodedig ar gyfer prydau bwyd. Cynigir amrywiaeth dda o weithgareddau ac mae'r safle'n addas i blant y gall fod ganddynt anawsterau symudedd. Mae'r celfi yn briodol ar gyfer cam a datblygiad y plant. Mae hyn yn eu helpu i greu ymdeimlad o berthyn.

Mae cyfleusterau da i bawb sy'n defnyddio'r lleoliad ac ar gyfer cynnal sgyrsiau cyfrinachol mewn preifatrwydd. Mae'r ardal chwarae yn yr awyr agored wedi'i hailwampio yn ddiweddar ac mae'n darparu ardal ysgogol i'r plant ddysgu drwy chwarae. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau garddio a chânt gyfleoedd i arbrofi ag adnoddau chwarae dŵr, gan ddefnyddio sbyngau a hambyrddau llawr i ddychmygu croesi afon ar gerrig sarn. Mae adnoddau da yn yr ysgol goedwig a chaiff ei chynnal a'i chadw'n dda. Mae'n cynnig amgylchedd cyfoethog i feithrin twf a datblygiad personol y plant yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr wedi trefnu hysbysfwrdd sy'n llawn gwybodaeth ac ardal wybodaeth ar gyfer y rhieni. Mae hyn yn helpu'r rhieni i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn y lleoliad ac yn eu cyfeirio at yr asiantaethau perthnasol yn briodol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y teganau a'r cyfarpar o ansawdd da. Er enghraifft, mae cydbwysedd o adnoddau naturiol i'r plant gael ymarfer defnyddio eu synhwyrau. Mae dewis amrywiol o deganau sy'n adlewyrchu ein cymdeithas ehangach, er enghraifft, lluniau o deuluoedd o ddiwylliannau gwahanol, llyfrau, doliau, ffigurau byd bach a jig-sos. Mae'r gornel gartref wedi'i threfnu'n dda ac yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau sy'n ymwneud â'u themâu megis cyfle i ddysgu am ofalu am anifeiliaid anwes.

Mae'r arweinwyr wedi trefnu corneli darllen creadigol a chyfforddus yn dda, gan gynnwys wigwam lliwgar i'r plant eistedd ynddo pan fyddant am ymlacio a darllen yn yr awyr agored. Mae'r llyfrau o ansawdd da a chânt eu harddangos yn ddeniadol gan annog y plant i'w darllen.

### Arwain a rheoli: Da

Mae gan y person â chyfrifoldeb weledigaeth gadarn ar gyfer y lleoliad sy'n seiliedig ar greu amgylchedd cynnes a chroesawgar i ddiwallu anghenion unigol y plant. Mae'r ymarferwyr yn rhannu'r weledigaeth hon ac yn cydweithio â hi'n llwyddiannus i greu ethos dysgu cadarnhaol. Mae'r person â chyfrifoldeb yn cydweithio'n dda â'r pwyllgor rheoli i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau ac unrhyw faterion sy'n codi mewn cyfarfodydd ffurfiol bob tymor ac ymweliadau anffurfiol rheolaidd gan aelodau o'r pwyllgor. Mae'r datganiad o ddiben y lleoliad yn rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch yr holl blant a'r ymarferwyr a chânt eu hadolygu'n rheolaidd gan yr arweinwyr. Mae dau faes nad ydynt yn bodloni'r gofynion cyfreithiol. Nid oes gan y person cofrestredig dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac nid yw'r arweinwyr wedi hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am ddigwyddiadau sylweddol sy'n effeithio ar les y plant. Nid oes hysbysiad diffyg cydymffurfio wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn ar gyfer y materion hyn, gan

nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae gan yr arweinwyr a'r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella. Mae'r person â chyfrifoldeb yn defnyddio arsylwadau uniongyrchol a barn y rhieni a'r ymarferwyr yn dda i lunio barn ar effeithiolrwydd gwaith a chynnydd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn canolbwyntio'n dda ar effaith ei weithdrefnau, ansawdd y dysgu a'r amgylchedd dysgu ar y canlyniadau i'r plant. Mae'r person â chyfrifoldeb yn cydweithio'n llwyddiannus ag ymarferwyr i roi cynlluniau datblygu ar waith sy'n arwain at welliannau effeithiol. Er enghraifft, nododd yr ymarferwyr y gallai cynlluniau'r gwasanaeth adlewyrchu anghenion a diddordebau'r plant yn well. Gwnaethant weithredu ar hyn drwy greu system gwerth chweil i gofnodi diddordebau'r plant wrth iddynt ddod i'r amlwg a'u defnyddio i benderfynu ar y gweithgareddau i'w cyflwyno nesaf.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod digon o ymarferwyr sydd â'r cymwysterau addas i ddiwallu anghenion y plant a chânt eu dyrannu'n dda i fanteisio i'r eithaf ar eu sgiliau. Mae disgrifiadau swydd yr holl ymarferwyr yn gyfredol ac yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir. Mae'r arweinwyr yn rhoi systemau goruchwylio ac arfarnu buddiol ar waith sy'n darparu cyfleoedd defnyddiol i'r ymarferwyr fyfyrio ar eu perfformiad a nodi meysydd i'w gwella.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn llwyddo i weithio'n galed i gynnal cydberthnasau cynhyrchiol â'r rhieni a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd eu plant a'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt yn y lleoliad. Mae gan y lleoliad rai partneriaethau buddiol â'r gymuned leol sy'n cefnogi dysgu'r plant. Fodd bynnag, nid oedd yr agwedd hon ar waith y lleoliad wedi'i datblygu ddigon.

Mae gan y lleoliad gydberthynas gadarnhaol â'i hysgol gynradd sy'n helpu'r plant i bontio i gam nesaf eu haddysg yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd rhan mewn cyngherddau a dathliadau yn yr ysgol ac mae athrawon o'r ysgol yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd i feithrin dealltwriaeth bersonol o anghenion unigol, cymeriadau a chryfderau'r plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  17/06/2019